# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 6 Chwefror 2020

Amser: 09.00 - 12.33

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5959

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Huw Irranca-Davies AC<br>Mark Isherwood AC<br>Delyth Jewell AC<br>Caroline Jones AC |
| Tystion: | Eleri Butler MBE, Welsh Women's Aid<br>Huw Rees, Rheolwr Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Philippa Dixon, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Nick Selwyn, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): y prif faterion

1.1 Trafododd y Pwyllgor ei faterion allweddol, a chytunodd arnynt.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 3 Ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: gwaith dilynol - sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Eleri Butler, Prif Swyddog Gweithredol, Cymorth i Ferched Cymru

3.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth cytunodd Cymorth i Ferched Cymru i ddarparu:

- Rhagor o fanylion am y ffyrdd a awgrymir y gellid addasu'r Ddeddf, ar ôl cyflwyno Bil Cam-drin Domestig y DU.
- Gwybodaeth am ddulliau peilot diweddar sydd wedi canolbwyntio ar atal (er enghraifft Newid sy'n Para).
- Ehangu ar sut y gallai Llywodraeth Cymru wella'r ddarpariaeth ar gyfer menywod nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus.
- Nodyn ar weledigaeth Cymorth i Ferched Cymru ar gyfer strwythur fframwaith canlyniadau.
- Nodyn ar gyfleoedd i'r Ddeddf gyd-fynd â gwaith sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Ehangu ar yr hyn y dylai Strategaeth Genedlaethol 2021 ei gynnwys, a'r hyn y gellir ei ddysgu o'r pum mlynedd diwethaf.

## 4 Ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: gwaith dilynol - sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Huw Rees, Cyfarwyddwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru

- Philippa Dixon, Uwch Archwilydd, Swyddfa Archwilio Cymru
- Nick Selwyn, Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru

4.2 Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu:

- Copi o'i hadroddiad ym mis Rhagfyr 2018 ynghylch defnyddio data.
- Rhagor o wybodaeth am y rhaglen Teuluoedd Cydnerth yn Rhondda Cynon Taf.

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cynghorwyr Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd a Thrais Rhywiol (mis Rhagfyr 2019)

5.1.a Nododd y Pwyllgor y diweddariad gan y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Rhagfyr 2019).

### 5.2 Cyflwyniad ysgrifenedig gan yr NSPCC Cymru mewn perthynas â'r ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

5.2a Nododd y Pwyllgor y cyflwyniad ysgrifenedig gan NSPCC Cymru mewn perthynas â'r ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

### 5.3 Cyflwyniad ysgrifenedig gan Fwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent mewn perthynas â'r ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

5.3.a Nododd y Pwyllgor y cyflwyniad ysgrifenedig gan Fwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent mewn perthynas â'r ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

### 5.4 Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd mewn perthynas â Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

5.4.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd mewn perthynas â Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Ymchwiliad ar ôl y broses ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: gwaith dilynol - trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.